

Arbed ynni – y dewis mwyaf call er honiadau'r diwydiant gwadu

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn ystyried beth ydy'r dewisiadau go iawn wrth ystyried newid hinsawdd...

UN o benawdau mawr yr wythnos ddiwetha' oedd datganiad pennaeth Ofgem am y byggythiad i'n cyflenwad trydan, y peryg o filiau uwch o achos cau ein hen bwerdai hen a chost rhyngwladol nwy gyda lleihad y cyflenwad lleol o Fôr Y Gogledd.

Er nad dyna'r bwriad, roedd y datganiad yn ein hatgoffa o un peth amlwg – mai'r broblem fwyaf o ran nwyon tŷ gwydr yw ein dibyniaeth ar ynni o lo, nwy ac olew. Mae llosgi'r rhain yn gollwng cymaint o garbon deuoscid gymaint fel bod y lefel yn yr awyr yn agosáu at 400 canran ym mhob miliwn o'i gymharu â thua 270 cyn y Chwyldro Diwydiannol.

Mae ein dibyniaeth ar ynni rhad, cyfleus, yn treiddio trwy gymdeithas. Ryden ni'n dibynnu arno i gynhesu ein tai a'n llefydd gwaith, i'n galluogi i drafaelio ar y tir, ar y môr a thrwy'r awyr ac i gynhyrchu bron bopeth, gan gynnwys ein bwyd.

Mae ffyniant y Gorllewin dros ddau gan mlynedd yn seiliedig ar ynni rhad. Prin bod eisio atgoffa y Cymry o hynny.

Glo oedd y brenin am ganrif ac mae canlyniadau hyn i'w weld ym Mae Caerdydd, ym Mharc Cathays ac mewn rhesi tai o'r Rhondda i Rosllannerchrugog, heb sôn am greithiau Aberfan, Senghennydd a Gresfordd.

Gan fod llosgi tanwydd yn dal i fod wrth wraidd problem newid hinsawdd, mae'n rhaid ystyried a oes yna ddewisiadau eraill. A yden ni ar y llwybr at ddinistr neu a fydd ein dyfeisgarwch yn ein hachub?

CYFOETH YN HYBU'R DIWYDIANT GWADU

Un dewis yw gwadu'r dystiolaeth. Yn America mae yna ddiwydiant gwadu mawr, wedi ei gyllido gan gwmnïau ac unigolion cyfoethog. Maen nhw'n ceisio lledaenu amheuan a hau hanner celwydd. Ond does dim rhaid edrych ymhellach na'r newidiadau syfrdanol yn Iâ'r Arctig yn haf 2012 er mwyn tanseilio hynny.

Dewis arall sy'n cael ei drafod yn gyson ydy trydan o ffynonellau sy'n eu hadnewyddu eu hunain – ffynonellau carbon isel, o gynlluniau dadeuol i godi Wylfa B neu Forglawdd yr Hafren i felinau gwynt di-ri.

Yn ôl Ofgem, mae'n ymddangos y bydd gwledydd Prydain yn brin o drydan yn y blynyddoedd nesa'. Ond dim ond tua 20% o'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, er enghraifft, sy'n dod o drydan.

Mae diwydiant yn dibynnu ar lo, nwy ac olew. Mae ein trafndiaeth yn dibynnu bron yn llwyr ar olew a, hyd yn oed wrth gynhesu ein cartrefi, mae ein biliau gwres glo, nwy neu olew fel rheol yn llawer mwy na'r bil trydan.

Felly, nid trydan ydi'r broblem fwyaf – er ei fod yn cyfrannu ac er ei bod yn debygol y bydd y galw am drydan yn cynyddu wrth inni drydaneiddio ein ceir a'n rheilffyrdd.

Heb os, o gofio ein bod yn gwastraffu traean o'n hynni, y dewis mwyaf call a deniadol ydy arbed ynni trwy ynysu ein tai yn well, trwy bolisïau cynllunio call i leihau trafndiaeth a chomiwtio (heb greu rhagor o gomiwtio trwy gynlluniau fel un tai Bodelwyddan), defnyddio offer mwy effeithlon megis bylbiau LED ac, ar ei fwyaf syml, diffodd goleuadau ac offer pan nad oes eu hangen. Er fod gynnon ni yng Nghymru broblem benodol am fod gan gymaint o'n tai waliau cerrig neu fric solet, mae yna atebion.

Y cwestiwn nesa' – a fydd hyn yn ddigon a sut mae talu am y newidiadau?

[Chwefror 28, 2013]